LC403

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2002

Mae’r rheoliadau hyn yn disodli’r diffiniad presennol o "relevant special grant" yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac yn mewnosod diffiniad newydd. Mae’r diffiniad hwn yn angenrheidiol pan fydd awdurdod bilio yn cyfrifo anghenion ei gyllideb a swm sylfaenol ei dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**
Gan fod y rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith sylfaenol, cymeradwywyd drafftio’r rheoliadau hyn gan y Cwnsler Seneddol

Eglurwyd wrthym bod yr is-adran (12) newydd, yn unol â chyngor y Cwnsler Seneddol, yn hepgor y geiriau agoriadol sy’n ymddangos ar hyn o bryd yn is-adran (12) ac sy’n nodi fod yr is-adran yn gymwys "in relation to Wales". Yn ôl barn y Cwnsler Seneddol, dylid hepgor y geiriau hyn am eu bod yn ddiangen.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

29 Ionawr 2002